| Canlyniadau'r Unedau - Modiwl 3 | | |
|---|---|---|
| Uned 13 | Uned 14 | Uned 15 |
| **Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd y disgyblion yn gallu:**<br>- Dod o hyd i atebion i wahanol heriau<br>- Cynnig syniadau ar gyfer dilyniant i bâr<br>- Gweithio ar eu pen eu hunain ac mewn pâr i greu a pherfformio dilyniant sy'n arddangos gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth<br>- Gwylio perfformiad ei gilydd a dweud beth sy'n dda amdano a beth allai fod yn well<br>- Defnyddio'r ddealltwriaeth hon i gynllunio sut i wella eu sgiliau eu hunain<br>- Adnabod rhai o'r egwyddorion sy'n sail i weithgareddau creadigol<br>- Cyfleu syniadau'n glir i bartner | **Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd y disgyblion yn gallu:**<br>- Ymarfer ystod o weithrediadau Rholio Ymlaen sy'n gynyddol gymhleth<br>- Ymarfer ystod o weithrediadau cymesur ac anghymesur<br>- Gweithio er eu pen eu hunain i greu a pherfformio dilyniant ar y llawr sy'n arddangos gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth<br>- Llunio barn syml am eu perfformiad eu hunain a pherfformiad dysgwyr eraill<br>- Defnyddio geiriau allweddol a gofyn cwestiynau perthnasol er mwyn gwneud cynnydd<br>- Defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio sut i wella ansawdd ac amrywiaeth eu gwaith<br>- Dechrau cymryd cyfrifoldeb am eu gweithrediadau eu hunain a dechrau deall y risgiau cysylltiedig | **Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd y disgyblion yn gallu:**<br>- Ymarfer ystod o weithrediadau Ffurfio Pont a gweithrediadau cydbwyso Siâp T sy'n gynyddol gymhleth<br>- Archwilio eiliadau o lonyddwch<br>- Ymarfer ystod o weithrediadau arwain a dilyn mewn pâr<br>- Defnyddio'r cyfarpar i berfformio dilyniant mewn pâr sy'n cynnwys gweithred arwain a dilyn a gweithred gymesur ac anghymesur, gan arddangos gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth<br>- Perfformio ag effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd cynyddol<br>- Dechrau perfformio â mwy o gywirdeb, a'i gynnal dros gyfnodau hwy<br>- Cymryd peth cyfrifoldeb am eu gweithrediadau eu hunain a deall rhai o'r risgiau cysylltiedig<br>- Cyfathrebu'n glir ac yn effeithiol<br>- Defnyddio TGCh i wella effaith eu gwaith |
| Uned 16 | Uned 17 | Uned 18 |
| **Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd y disgyblion yn gallu:**<br>- Ymarfer ystod o weithrediadau Pensefyll a gweithrediadau Rholio yn Ôl sy'n gynyddol gymhleth<br>- Cydweithio ag eraill ac ymddwyn yn briodol<br>- Datblygu ymhellach amrywiaeth cynyddol o syniadau dychmygus<br>- Disgrifio sut i ddatblygu dilyniant ac arddangos dealltwriaeth o hynny<br>- Disgrifio a pherfformio amrywiaeth o drefniannau/cydberthnasau gofodol yn eu pâr<br>- Gweithio mewn grwpiau o dri i greu a pherfformio dilyniant sy'n arddangos amrywiaeth o drefniannau/cydberthnasau gofodol, eiliadau o lonyddwch ac ailadrodd<br>- Sylweddoli pwysigrwydd rheolau a gweithdrefnau diogelwch, a'u gweithredu'n gyson<br>- Disgrifio sut maent yn teimlo wrth wneud gwahanol weithgareddau, a dangos peth dealltwriaeth o bwysigrwydd gweithgarwch corfforol i iechyd, ffitrwydd a lles | **Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd y disgyblion yn gallu:**<br>- Ymarfer ystod o weithrediadau Llawsefyll sy'n gynyddol gymhleth<br>- Dechrau mireinio ac addasu technegau a sgiliau a ddysgwyd yn flaenorol, a'u defnyddio wrth gydbwyso ar eu dwylo a'u pen<br>- Adnabod beth sy'n gwneud sgìl, syniad neu weithred yn llwyddiannus<br>- Creu a pherfformio dilyniant cyfun i unigolyn a phâr sy'n arddangos amrywiaeth o ddyfeisiau coreograffig<br>- Perfformio â mwy o gywirdeb, a'i gynnal am gyfnodau priodol<br>- Disgrifio sut gall ailadrodd wella amrywiaeth a gwneud dilyniant yn fwy cymhleth<br>- Llunio barn syml am eu perfformiad eu hunain a pherfformiad dysgwyr eraill<br>- Defnyddio TGCh i wella effaith eu gwaith | **Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd y disgyblion yn gallu:**<br>- Ymarfer ystod o weithrediadau Olwyndroi sy'n gynyddol gymhleth<br>- Cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu gweithrediadau eu hunain a dechrau deall y risgiau cysylltiedig<br>- Defnyddio egwyddorion cyfansoddi i gynllunio perfformiad ag ymwybyddiaeth o'r ffactorau sy'n hybu ansawdd<br>- Defnyddio'r cyfarpar i greu a pherfformio dilyniant mewn pâr sy'n cynnwys ystod eang o sgiliau a gweithgareddau a gaiff eu perfformio â rheolaeth a chywirdeb cyson<br>- Gwrando'n ofalus ar yr hyn y mae eraill yn ei ddweud am eu gwaith, a defnyddio eu harsylwadau i wella effeithiolrwydd ac ansawdd eu perfformiadau eu hunain a pherfformiadau dysgwyr eraill<br>- Cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu gwaith dysgu eu hunain, a defnyddio geiriau allweddol a gofyn cwestiynau i ymestyn a gwella ansawdd ac amrywiaeth eu perfformiad |